

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Beth wnes i yn 2017-2018



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o **Adroddiad Blynyddol 2017-2018** Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Medi 2018



Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.

Efallai y byddwch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.

Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn ysgrifen glas trwm ac mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.

Os oes unrhyw un o'r geiriau yn cael eu defnyddio eto maen nhw'n cael eu dangos mewn ysgrifen glas normal. Gallwch weld beth maen nhw'n feddwl yn y Geiriau anodd ar dudalen 24.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:



Cyfeiriad: Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol y Santes Fair
Caerdydd
CF10 1AT



Gwefan: www.futuregenerations.wales

E-bost: contactus@futuregenerations.wales



Ffôn: 02921 677 400



Cafodd y ddogfen yma ei gwneud yn un hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma.....	2
Am y ddogfen yma.....	4
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.....	4
Yr adroddiad yma.....	5
1. Materion a heriau mawr.....	7
Fy ngwaith.....	7
Fforddnewydd.....	8
Cynlluniau trafnidiaeth.....	8
Gostwng lefelau carbon.....	9
Profiadau Plentyndod Niweidiol.....	10
2. Cefnogi a gweithio gyda chyrff cyhoeddus.....	11
Canllaw Cenedlaethau'r Dyfodol.....	11
Cyngor.....	12
3. Gweithio gydag eraill i wneud i newid ddigwydd.....	14
4. Bod yn enghraifft da o'r newid rydyn ni eisiau ei weld.....	16
Sut mae fy ngwaith wedi gwneud gwahaniaeth.....	22
Geiriau anodd.....	24

Am y ddogfen yma

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru



Fy enw ydy Sophie Howe. Fi ydy **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**.



Fy ngwaith i ydy edrych ar ôl **cenedlaethau'r dyfodol**.



Cenedlaethau'r dyfodol ydy'r bobl sydd yn byw yng Nghymru yn y dyfodol. Ein plant a'n wyrion.



Yn 2016 dechreuodd deddf newydd yng Nghymru. Yr enw ydy **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**. Rydw i'n ei galw yn **Ddeddf**.



Mae'r **Ddeddf** yn dweud bod rhaid i **gyrff cyhoeddus** feddwl am sut mae pethau maen nhw'n ei wneud yn gallu effeithio ar bobl yn y dyfodol.



Cyrff cyhoeddus ydy cyrff sydd yn rhoi gwasanaethau i'r cyhoedd. Maen nhw'n cael arian gan Lywodraeth Cymru. Ond dydyn nhw ddim yn rhan o Lywodraeth Cymru.



Rydw i'n helpu **cyrff cyhoeddus** i feddwl am **genedlaethau'r dyfodol** pan maen nhw'n cynllunio ac yn gwneud penderfyniadau.

Yr adroddiad yma



Mae hwn yn adroddiad byr am yr holl waith rydw i wedi ei wneud yn 2017-2018.



Mae yna fersiwn hirach o'r adroddiad yma. Ond rydw i'n gwybod nad ydy pawb yn hoffi darllen adroddiadau hir. Felly rydw i wedi ysgrifennu fersiwn byr.



Mae edrych ar ôl **cenedlaethau'r dyfodol** yn swydd fawr a phwysig. Rydw i wedi nodi 4 peth i ganolbwyntio arnyn nhw i fy helpu i a fy nhîm i wneud y gwaith yma:

1.

Materion a heriau mawr.

2.

Cefnogi a gweithio gyda **chyrff cyhoeddus**.

3.

Gweithio gydag eraill i wneud i newid ddigwydd.

4.

Bod yn enghraifft da o'r newid rydyn ni eisiau ei weld.



Mae'r adroddiad yma yn dweud pa waith sydd wedi cael ei wneud ar y 4 peth yma yn 2017-2018.

1. Materion a heriau mawr

Fy ngwaith

Rydw i'n dweud beth fydda i'n canolbwyntio arnyn nhw dros y 7 mlynedd nesaf. Fe fydda i'n canolbwyntio ar:



- Tai.



- Ynni.



- Trafnidiaeth.



- Sgiliau.



- Cadw pobl yn iach.



- **Profiadau Plentyndod Niweidiol.**

Profiadau Plentyndod Niweidiol ydy pethau drwg sydd yn digwydd i chi pan rydych yn blentyn. Maen nhw'n gallu cael effaith ddrwg ar eich bywyd fel oedolyn.

Ffordd newydd



Fe wnes i ofyn i **Lywodraeth Cymru** esbonio eu cynlluniau i wario 1 biliwn a hanner o bunnoedd ar ffordd newydd.



Nod y ffordd ydy lleihau traffig ar yr **M4**. Ond dydw i ddim yn meddwl mai dyma'r peth gorau i **genedlaethau'r dyfodol**.



Cynlluniau trafnidiaeth

Fe wnes i helpu **Llywodraeth Cymru** i newid y ffordd maen nhw edrych ar eu cynlluniau trafnidiaeth.



Fe fyddan nhw nawr yn gwneud yn siŵr bod cynlluniau trafnidiaeth yn ein helpu i gyrraedd ein **nodau llesiant**.



Mae'r **nodau llesiant** yn dod o'r **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**.

Mae'r **nodau llesiant** yn rhestr o'r pethau fydd yn helpu i wneud Cymru yn lle gwell i fyw ynddi yn y dyfodol.

Gostwng lefelau carbon



Nwy ydy **carbon** sydd yn ddrwg i'r **amgylchedd**.

Yr **amgylchedd** ydy'r lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, môr, aer a phopeth sydd yn byw arno neu ynddo. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid, pysgod.



Fe wnes i'n siŵr bod **Llywodraeth Cymru** yn meddwl am y **Ddeddf** mewn cynlluniau i ostwng lefelau **carbon**.



Fe wnes i'n siŵr bod **Llywodraeth Cymru** yn meddwl am y **Ddeddf** wrth roi arian i bobl am dai nad ydyn nhw'n rhyddhau llawer o **garbon**.

Profiadau Plentyndod Niweidiol



Fe wnes i helpu i sefydlu Canolfan ar gyfer rhoi cyngor a gwybodaeth am [Brofiadau Plentyndod Niweidiol](#).



Fe fydd y ganolfan yn helpu [cyrff cyhoeddus](#) i ddelio gyda [Phrofiadau Plentyndod Niweidiol](#).



Hyd yn hyn mae wedi cael effaith dda. Mae 16 o [Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus](#) nawr wedi dewis canolbwyntio ar ddelio gyda [Phrofiadau Plentyndod Niweidiol](#). Mae hyn yn dda iawn ar gyfer llesiant.



Cafodd Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu sefydlu ym mhob ardal yng Nghymru. Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod gwaith yn cael ei wneud ar y [nodau llesiant](#).



Rydw i wedi gwrandao ar bobl ac wedi siarad gyda nhw. Maen nhw wedi sôn am lawer o faterion. Oherwydd hynny, rydw i'n gweithio ar bethau sydd yn bwysig iddyn nhw.

2. Cefnogi a gweithio gyda chyrff cyhoeddus

Canllaw Cenedlaethau'r Dyfodol



Fe wnes i ysgrifennu canllaw i **gyrff cyhoeddus** ac eraill. Mae'n rhoi cyngor ar sut i ddilyn y **Ddeddf**.



Mae llawer o gyrff wedi ei ddefnyddio, yn cynnwys:



- Trafnidiaeth Cymru

Cytundeb
Dinesig
Prifddinas
Ranbarth
Caerdydd



- Bargenion Dinas Caerdydd ac Abertawe



- Cyngor Sir Ynys Môn.

Cyngor



Fe wnes i roi cyngor i 19 o **fyrddau gwasanaethau cyhoeddus** a **chyrff cyhoeddus**. Fe wnaeth hyn eu helpu i ysgrifennu eu cynlluniau llesiant.



Fe wnes i roi gwybodaeth i grŵp arbennig yn y **Cynulliad Cenedlaethol** ar wariant. Fe wnes i ddweud wrthyn nhw sut yr oedden nhw'n gallu gwario arian mewn ffordd a fyddai'n well i bobl ac i Gymru.



Oherwydd hyn mae yna adolygiad wedi cychwyn ar wario arian.



Hefyd fe wnes i helpu **Llywodraeth Cymru** i feddwl yn well am y **Ddeddf** yn eu cynllun ar gyfer gwario arian. Maen nhw nawr yn edrych yn agosach ar faint maen nhw'n wario ar wasanaethau sydd yn stopio problemau rhag digwydd. Neu fynd yn waeth.



Fe wnes i roi cyngor i **Drafnidiaeth Cymru** ar eu cynlluniau ar gyfer rheilffyrdd. Fe wnes i eu helpu i feddwl am:



- Creu swyddi lleol.



- Newidiadau i ddatblygu sgiliau a hyfforddiant staff.



- Defnyddio busnesau lleol.



- Cynnwys pobl sydd yn defnyddio'r rheilffyrdd.



- Yr [amgylchedd](#).



Ac fe wnes i weithio gyda'r **GIG** i wella sut maen nhw'n ysgrifennu cynlluniau. Fe fydd hyn yn gwneud yn siŵr eu bod yn meddwl am y dyfodol pan maen nhw'n ysgrifennu cynlluniau.

3. Gweithio gydag eraill i wneud yn siŵr bod newid yn digwydd



Rydw i wedi gweithio gyda **Swyddfa Archwilio Cymru** i weld pa mor dda mae **cyrff cyhoeddus** yn ei wneud. Ac i wneud yn siŵr bod eu gwaith yn helpu **cyrff cyhoeddus** i gael canlyniadau da.



Rydw i wedi helpu **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** i roi hyfforddiant i dros 300 o gynghorwyr newydd.



Fe wnes i ddechrau'r **Rhaglen Celfyddyd y Posibl**. Prosiect ydy hwn am sut y mae gwasanaethau cyhoeddus yn gallu helpu gyda'r **nodau llesiant**. Rydw i'n gweithio gyda 12 o wahanol gyrff ar hyn.



Rydw i'n sefydlu rhwydwaith o arbenigwyr **enedlaethau'r dyfodol**. Fe fydd y rhwydwaith yn helpu **cyrff choeddus** i feddwl am syniadau newydd a ffyrdd o gwrdd â'u targedau llesiant.



Rydw i wedi helpu gwledydd eraill i wella eu polisiau a'u gwaith ar [genedlaethau'r dyfodol](#). Maen nhw'n cynnwys:

- Yr Iseldiroedd
- Awstralia
- Y Ffindir
- Seland Newydd.



Rydw i'n gweithio gyda Chomisiynwyr eraill yng Nghymru. Er enghraifft, y **Comisiynydd Plant**. Rydyn ni wedi ysgrifennu pecyn cymorth i helpu cynghorau ac ysgolion i feddwl am hawliau plant a'r dyfodol yn eu gwaith.

4.

Bod yn enghraifft da o'r newid rydynni eisiau ei weld



Mae'r **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** hefyd yn nodi 5 ffordd o weithio.



Rydwi wedi gwneud yn siŵr fy mod yn defnyddio'r 5 ffordd o weithio yn y modd rydw i'n rhedeg fy swyddfa.



Rydwi hefyd wedi bod yn helpu'r **nodau llesiant**. Dyma'r rhestr o beth rydw i wedi bod yn ei wneud.



Nod 1 Cymru ffyniannus. Lle mae gan bawb swyddi a does yna neb yn dlawd



- Rydw i'n gyflogwr cyflog byw. Mae hyn yn meddwl fy mod yn talu pobl yr arian maen nhw ei angen i fyw arno.

- Rydw i'n gweithio gyda **Choleg Caerdydd a'r Fro** i gael **Prentis** yn ein swyddfa.



Prentis ydy person sydd yn dysgu sgiliau swydd tra'n gweithio ac yn cael cyflog.



- Rydw i'n cefnogi busnesau lleol. Er enghraifft rydw i'n defnyddio glanhawyr ac arlwywyr lleol.



- Rydw i wedi rhoi cyfle i fyfyrwyr gael lleoliad gwaith gyda chyflog.



- Rydw i'n gofyn i fy staff rannu syniadau da gydag eraill.



Nod 2 Cymru gadarn. Lle rydyn ni'n barod a gyda chynlluniau ar gyfer pethau fel llifogydd



- Rydw i'n cadw llygad ar yr effaith sydd gan fy swyddfa ar yr **amgylchedd**. A hefyd sut mae fy staff yn teithio i'r gwaith. Mae nifer ohonyn nhw'n defnyddio trafnidiaeth cyhoeddus neu yn cerdded.



- Rydw i'n defnyddio pethau fel **Skype** i gynnal cyfarfodydd dros y rhwyngwyl. Mae hyn yn helpu i leihau faint mae'n rhaid inni deithio.



- Fe fydda i'n cyfrannu at elusennau sydd yn helpu'r **amgylchedd**.



- Rydyn ni nawr yn defnyddio trydan o ynni adnewyddadwy, Mae hyn yn meddwl nad ydy e'n rhedeg allan ac nad ydy e'n ddrwg i'r **amgylchedd**.



- Rydyn ni'n argraffu llai o bethau ac rydyn ni'n ailgylchu. Mae hyn yn meddwl ein bod yn aildefnyddio gwastraff. Dydyn ni ddim yn defnyddio cwpannau plastig nawr.



Nod 3 Cymru iachach. Lle mae pawb yn fwy iach ac yn gallu cael mynediad i wasanaethau a gweithgareddau iechyd a llesiant



- Mae gennym ni glwb rhedeg staff i'n helpu ni i gadw'n heini yn ystod amser cinio. A dosbarth yoga yn y bore.



- Rydyn ni'n cael ffrwyth bob dydd.



- Rydyn ni'n gwneud pethau i edrych ar ôl ein iechyd meddwl.



Nod 4 Cymru mwy cyfartal. Lle mae gan bawb gyfle cyfartal mewn bywyd



- Rydyn ni'n ei gwneud yn haws i rieni weithio inni. Rydyn ni'n gadael i staff weithio ar adegau sydd yn gyfleus iddyn nhw. Ac mewn lleoedd sydd yn gyfleus iddyn nhw.



- Mae ein cyflog yn deg. Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod staff ar gyflog is yn cael cyflog da.



- Rydyn ni'n rhoi ein hadroddiad blynyddol mewn Iaith Arwyddion Prydeinig ac mewn Hawdd ei Ddeall.




Nod 5 Cymru o gymunedau cydlynus. Lle mae cymunedau yn gallu byw yn hapus gyda'i gilydd



- Rydyn ni'n gweithio ar gefnogi gwirfoddolwyr.



- Rydyn ni'n codi arian ar gyfer elusen digartrefedd yng Nghaerdydd.



Nod 6 Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus. Lle mae gennym lawer o gyfleoedd i wneud pethau gwahanol. A lle mae llawer o bobl yn gallu siarad Cymraeg.



- Mae 1 o bob 4 o fy staff yn siarad Cymraeg. Mae 12 aelod o'r staff yn dysgu Cymraeg.



- Rydw i wedi trefnu gwersi Cymraeg bob wythnos i'r staff.



Nod 7 Cymru sydd yn fyd-eang gyfrifol. Lle rydyn ni'n edrych ar ôl yr amgylchedd. Ac yn meddwl am bobl o gwmpas y byd.



- Rydyn ni'n defnyddio te, coffi a siwgr Masnach Deg. Mae hyn yn meddwl bod gweithwyr mewn gwledydd eraill yn cael pris teg am y pethau yma.



- Rydyn ni wedi dysgu oddi wrth ffermwyr coffi Masnach Deg yn Uganda ac India. Maen nhw wedi ein dysgu pa mor bwysig ydy Masnach Deg iddyn nhw.

Sut mae fy ngwaith wedi gwneud gwahaniaeth



Mae helpu i wneud Cymru yn lle gwell ar gyfer y dyfodol yn waith mawr imi ac i fy nhîm bach.



Ond rydyn ni wedi gwneud llawer o waith da y flwyddyn yma:



- Cael pobl i siarad am bynciau pwysig.



- Cael **Gweinidogion**, y **Llywodraeth** a chyrff pwysig i addo meddwl am **genedlaethau'r dyfodol**.



- Rydyn ni wedi helpu i newid y ffordd y mae **cyrff cyhoeddus** yn gweithio.



- Cael pobl i wneud newidiadau bob dydd i helpu i gyflawni'r **nodau llesiant**.



Mae gennym ni lawer mwy i'w wneud. Rydw i'n edrych ymlaen at weithio gyda phobl y flwyddyn nesaf i wneud i newid ddigwydd.



Os ydych chi eisiau cymryd rhan yn ein gwaith neu os ydych chi eisiau rhagor o wybodaeth cysylltwch gyda ni os gwelwch yn dda.



Rydyn ni hefyd yn ysgrifennu newyddlen bob mis. Rhowch wybod inni os ydych chi eisiau cael un:



Cyfeiriad: Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol y Santes Fair
Caerdydd
CF10 1AT



E-bost: contactus@futuregenerations.wales



Ffôn: 02921 677 400

Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Geiriau Anodd

Amgylchedd

Yr amgylchedd ydy'r lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, môr, aer a phopeth sydd yn byw arno neu ynddo. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid, pysgod

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae Byrddau Cyrff Cyhoeddus wedi cael eu sefydlu ym mhob ardal yng Nghymru. Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod gwaith yn cael ei wneud ar y nodau llesiant

Carbon

Nwy ydy carbon sydd yn ddrwg i'r amgylchedd.

Cenedlaethau'r Dyfodol

Cenedlaethau'r dyfodol ydy'r bobl sydd yn byw yng Nghymru yn y dyfodol. Ein plant a'n wyrion.

Cyrff cyhoeddus

Cyrff cyhoeddus ydy cyrff sydd yn rhoi gwasanaethau i'r cyhoedd. Maen nhw'n cael arian i redeg gan Llywodraeth Cymru. Ond dydyn nhw ddim yn rhan o Lywodraeth Cymru.

Nodau llesiant

Mae'r nodau llesiant yn dod o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rhestr ydy'r nodau llesiant o'r pethau fydd yn helpu i wneud Cymru yn lle gwell i fyw ynddi yn y dyfodol.

Prentis

Prentis ydy person sydd yn dysgu sgiliau swydd tra'n gweithio a chael cyflog.

Profiadau Plentyndod Niweidiol

Profiadau Plentyndod Niweidiol ydy pethau drwg sydd yn digwydd i chi pan rydych yn blentyn. Maen nhw'n gallu cael effaith ddrwg ar eich bywyd fel oedolyn.